O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 3343 (Cy.295)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2007

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy —

— roi lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle'r un presennol (Rhagdybiaethau parthed y swm gros); a

— rhoi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigurau Poblogaeth Oedolion).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 3343 (Cy.295)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2007

Gwnaed *23 Tachwedd2007*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

26 Tachwedd 2007

Yn dod i rym *27 Rhagfyr 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 60, 140(4) a 143(1) a (2), o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 27 Rhagfyr 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**) fel a ganlyn parthed

(**1**) 1988 p.41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 1992/3238, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy.220), 2001/3910 (Cy.322), 2002/3054 (Cy.289),

blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2007.

(2) Ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2, yn lle "1.001" rhoddir "1.002".

(3) Yn lle Atodlen 4, rhoddir yr atodlen a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

23 Tachwedd 2007

2003/3211 (Cy.304), 2004/3232 (Cy.280), 2005/3345 (Cy.259) a 2006/3347 (Cy.307).

YR ATODLEN

Rheoliad 2

“SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

Billing authority area	**Prescribed figure**
Blaenau Gwent	53,800
Bridgend	103,400
Caerphilly	131,700
Carmarthenshire	140,300
Cardiff	250,100
Ceredigion	63,300
Conwy	88,700
Denbighshire	75,800
Flintshire	117,200
Gwynedd	93,600
Isle of Anglesey	54,400
Merthyr Tydfil	42,900
Monmouthshire	68,700
Neath Port Talbot	107,900
Casnewydd	107,000
Pembrokeshire	91,500
Powys	103,600
Rhondda Cynon Taf	182,000
Abertawe	180,900
Torfaen	70,500
Vale of Glamorgan (The)	95,000
Wrexham	102,800

”